CYSTADLEUAETH PERFFORMIO 2023 - 2024: MEWN CYMERIAD

Monolog OWAIN GLYNDŴR

CAMA OWAIN GLYNDŴR YMLAEN YN BENDERFYNOL – MAE EI HOLL OSGO'N AWGRYMU CADERNID A GRYM PENDERFYNIAD

Mehefin 1401. Ma Gogledd Cymru rwan yn fy nghefnogi i, a dwi a'r fyddin 'di symud i ganol mynyddoedd Pumlumon. Yng nghanol y mynyddoedd, bu brwydr fawr yn erbyn byddin Harri, Brenin Lloegr. Brwydr Hyddgen.

A ni enillodd y frwydr.

Wedyn, dyma pobol yn dechrau ymuno efo fi o bob rhan o Gymru.

Wel! Dodd Harri ddim yn hapus! Odd o mor flin mi nath o greu deddfau newydd yn erbyn y Cymry.

MAE'N DECHRAU EU RHESTRU, MEWN FFORDD HOLLOL ANGHREDINIOL

Ni all un Cymro gynnal cyfarfod os nad yw swyddog y Brenin yn bresennol.
Ni all un Cymro fod yn berchen ar gastell neu dŷ crand.
Ni all un Cymro gael swydd bwysig.
Ni all un Cymro gael arfau heb drwydded.
Ni all un Cymro roi croeso i fardd.

Pam 'dach chi'n meddwl fod y Brenin yn dweud na allai Cymro roi croeso i fardd? Wel, rodd y beirdd yn crwydro'r wlad, toeddan, a nhw odd y bobol odd yn cario'r newyddion, yn rhannu gwybodaeth efo milwyr Cymru ac yn deud wrthyn nhw lle fyddwn i'n eu cyfarfod nhw a lle i ymosod ar y Saeson nesa. Rodd gwaith y beirdd yn bwysig iawn i lwyddiant y gwrthryfel.

Nes i ddim cymryd unrhyw sylw o reolau newydd y Brenin. Wfft iddo fo a'i ddeddfau hurt!

Ym Mehefin 1402, enillais i frwydr bwysig iawn. Brwydr Bryn Glas. Bobol bach, odd hi'n frwydr waedlyd. Bu farw tua wyth mil o filwyr ar faes y gad ond llwyddais i i ddal a charcharu un o Arglwyddi'r Mers, ac un o ffrindiau gorau Harri, Edmund Mortimer.

Erbyn diwedd 1403 ron i'n rheoli'r rhan fwyaf o Gymru ar ôl ennill brwydrau yng Nghaerfyrddin, Castell Newydd Emlyn, Harlech ac Aberystwyth. Dodd bron dim rheolaeth gan Brenin Harri a'i Arglwyddi bellach. Ro'n nhw wedi stopio casglu trethi hyd yn oed, gan fod gymaint o ofn arnyn nhw. Ofn pwy medda chi? Wel fy ofn i, siŵr! Owain Glyndŵr!

A dyma'r adeg nes i benderfynu bod rhaid imi greu Senedd i Gymru. A hynny ym Machynlleth. Rodd hi'n ddiwrnod braf, Medi'r 16eg, 1404, pan es i a f'osgordd fawreddog ar hyd strydoedd Machynlleth. Rhys Gethin a Madog fy milwyr ffyddlon ar eu ceffylau a Marged a'r plant tu ôl i mi. Rodd y strydoedd yn llawn, a phobol yn gweiddi'n uchel,

"Owain Glyndŵr! Tywysog Cymru!"

A dyma fi'n eu cyfarch nhw.

"Fy mhobol, rwy'n sefyll o'ch blaen chi heddiw fel eich Tywysog, y tu allan i Senedd cyntaf Cymru. O'r diwedd, 'dani'n byw mewn Cymru newydd, Cymru sy'n annibynnol o Loegr, a hynny gyda'ch cefnogaeth chi – pobol Cymru!"

Dyna ddiwrnod hapus odd hwnnw!!

MAE EI LYGAID YN CYMYLU'N SYDYN

Ond... daeth tro ar fyd. Ym mis Mai 1405, aeth fy milwyr i lawr i Dde Cymru a brwydro ym mrwydr Pwll Melyn. Lladdwyd mil pum cant o Gymry yn cynnwys fy mrawd Tudur.

Ac ar ôl hynny, fe ddechreuodd pobol droi cefn arna'i. Ella'u bod nhw'n meddwl ei bod hi'n saffach iddyn nhw gefnogi'r Brenin? Ac un ar ôl y llall, aeth pob un o gestyll Cymru 'nôl i ddwylo'r gelyn.

MAE'N DECHRAU DADWISGO, A RHOI GWISG BUGAIL SYML AMDANO, TRA'N SIARAD

Er 'mod i wedi trïo creu rheolau newydd i'r wlad a chael cefnogaeth Ffrainc, rodd byddin Lloegr yn dinistrio mwy a mwy o'n hardaloedd, ac erbyn 1407 ro'n i 'di colli popeth ar ôl breuddwydio ac ymladd gymaint am gael Cymru rydd. A'r ergyd fwyaf oll odd colli Castell Harlech, fy nghartre i erbyn hynny. Fe gymron nhw Marged fy ngwraig, fy mhlant a 'nheulu i i gyd yn garcharorion... a welis i fyth mohonyn nhw wedyn.

Dodd gen i'm dewis ond ffoi, a bûm i'n crwydro mynyddoedd Cymru fel bugail ar fy mhen fy hun. Un diwrnod fe gyrhaeddais i'r bryn odd yn edrych i lawr ar Sycharth, fy nghartre cynta. A'r unig beth welis i odd adfeilion. Rodd milwyr Brenin Harri wedi llosgi fy nghartre hardd i'n ulw.

Ciliais yn drist, a welodd neb fi byth eto.

MAE'N CODI'I BEN – MAE HER NEWYDD YN EI LAIS

Ond ella bod f'ysbryd i'n dal yn y tir... yn rhywle...

Tybed a fedrwn i godi eto?